**PWYLLGOR ARCHWILIO 29-06-09**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Gwilym Williams (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Huw Edwards (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** E.T. Dogan, T.G. Ellis, Margaret Griffith, Selwyn Griffiths, Dafydd Ll. Hughes, Aeron Jones, Brian Jones, Eryl Jones-Williams, John P. Roberts, Ioan Thomas, Gethin Williams a Dylan Edwards (Arweinydd Portffolio Cyllid)

**Hefyd yn Bresennol:** Dewi Morgan (Uwch Reolwr Archwilio a Risg), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), William E. Jones (Uwch Reolwr Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Cyllid Adnoddau a Chorfforaethol Tros Dro), Helen Williams (Cyfrifydd Cyfalaf a Rheolaeth), Gwyn Morris Jones (Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol), John Edwards (Rheolwr Uned Darparu Priffyrdd), Amanda Hughes (Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru), Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Charles W. Jones ac R.L. Jones

**1. CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ailethol y Cynghorydd Gwilym Williams yn Gadeirydd y Pwyllgor am 2009/10.**

**2. IS-GADEIRYDD**

Nododd y Cynghorydd Ioan Thomas (Is-gadeirydd 2008/09) iddo yr wythnos ddiwethaf gael ei ethol yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Datblygu ac felly ni allai, yn unol â chyfansoddiad y Cyngor, fod yn is-gadeirydd ar ddau bwyllgor.

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Huw Edwards yn Is-gadeirydd y Pwyllgor am 2009/10.**

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol am y rhesymau a nodir –

Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams yn yr eitemau yn ymwneud â thai Cyngor a materion gofal ac anableddau y Gwasanaethau Cymdeithasol gan ei fod yn denant tŷ Cyngor a bod ei wraig sy’n anabl yn derbyn gofal cymdeithasol.

Y Cynghorydd Dafydd Ll. Hughes yn yr eitem yn ymwneud â chofrestr anabledd dysgu gan ei fod yn nyrs cymunedol – tîm anabledd dysgu.

Datganodd y Cynghorydd Aeron Jones fuddiant personol yn yr eitem yn ymwneud â defnydd o is-gontractwyr yn yr Uned Darparu Priffyrdd gan bod ei frawd yng nghyfraith yn gweithio yn yr Uned Cefnffyrdd.

‘Roedd yr aelodau o’r farn nad oeddynt yn fuddiannau a oedd yn rhagfarnu ac ni adawsant y cyfarfod a chymerwyd ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitemau perthnasol.

Datganodd y Cynghorydd Aeron Jones fuddiant personol yn yr eitem yn y cofnodion parthed sefyllfa gyllidol Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon gan iddo wneud cwyn swyddogol am Uwch Swyddog.

‘Roedd yr aelod o’r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

Mewn perthynas â’r eitem parthed Treuliau Aelodau, gofynnodd aelod am arweiniad os oedd angen i holl aelodau’r pwyllgor ddatgan buddiant personol. Mewn ymateb, cynghorodd y Pennaeth Cyllid y dylai’r aelodau ddatgan buddiant personol ond bod hawl ganddynt i gymryd rhan yn y drafodaeth.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2009, fel rhai cywir.

Mewn perthynas â chofnod 8 – sefyllfa gyllidol Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon, tynnodd aelod sylw at y ffaith iddo ddatgan yn y pwyllgor diwethaf bod swm sylweddol wedi mynd i un ysgol a’i anfodlonrwydd fod y cofnodion ddim yn cynnwys disgwyliad i aelodau fod wedi eu hysbysu o hynny. Addawodd y Pennaeth Cyllid drosglwyddo’r sylw i’r Pennaeth Ysgolion.

## 5. DATGANIAD CYFRIFON 2008/09

Cyflwynwyd y Datganiad o’r Cyfrifon statudol ar gyfer blwyddyn ariannol 2008/09 sy’n rhoddi manylion am weithgareddau ariannol y Cyngor yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2009.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid nad yw’r cyfrifon wedi eu harchwilio hyd yn hyn ac efallai y bydd angen rhai newidiadau iddynt cyn y cyflwynir fersiwn terfynol i’r pwyllgor hwn ar 28 Medi 2009. Gorfodwyd ffurf a chynnwys sylfaenol y datganiadau dan Reoliad 7 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 yn ogystal â rheoliadau a safonau eraill. Gan bod y rheoliadau yn mynnu datganiadau ar ffurf safonol, mae cymariaethau gyda chyfrifon cyrff eraill wedi’u hwyluso, ond mae’r cynnwys bellach yn hynod dechnegol.

Cyflwynwyd adroddiadau ynglyn â’r cyfrifon i’r Pwyllgor Adnoddau a Chorfforaethol ar 2 Mehefin ac yna i Fwrdd y Cyngor ar 9 Mehefin 2009. ‘Roedd yr adroddiadau hynny’n fwy defnyddiol i bwrpasau mewnol/rheoli tra mae’r Datganiad o Gyfrifon yn fwy priodol ar gyfer pwrpasau allanol/llywodraethu. Y Pwyllgor Archwilio yw’r “rhai sy’n gyfrifol am lywodraethu” ar ran y Cyngor.

Ymhelaethodd y Pennaeth Cyllid ei fod yn ofynnol i’r pwyllgor hwn gymeradwyo’r cyfrifon drwy benderfyniad ffurfiol cyn 30 Mehefin 2009 ac yna bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn llofnodi a dyddio’r Datganiad o’r Cyfrifon. Yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio, bydd y datganiad ynghyd â phob datganiad ariannol perthnasol arall, yn destun archwiliad

blynyddol gan Swyddfa Archwilio Cymru. Yn ogystal, bydd y cyfrifon ar gael i'w harolygu gan y cyhoedd am gyfnod o 20 diwrnod.

Rhoddodd yr Uwch Reolwr Cyllid eglurhad manwl am y gwahanol bolisiau cyfrifo, y gwahanol gyfrifon, datganiadau a'r nodiadau perthnasol. Codwyd nifer o gwestiynau gan yr aelodau ar y cyfrifon gan gynnwys y tueddiad mewn lefel dyledwyr, bandiau cyflogau, cronfeydd penodol, gwerth buddsoddiadau a.y. ac ymatebodd y swyddogion iddynt.

Cyfeiriodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg at Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor am 2008/09 a gynhwyswyd fel rhan o'r Datganiad o Gyfrifon (gweler cofnod 6 isod).

Atgoffwyd aelodau y cyflwynir cyfrifon y Gronfa Bensiwn i holl gyflogwyr y gronfa mewn Cyfarfod Blynyddol ar 21 Gorffennaf 2009.

Tynnodd aelod sylw at y ffaith bod Hyfforddiant Gwynedd yn rhedeg ar golled ar hyn o bryd a gofynnodd beth oedd y rhagolygon i'r dyfodol. Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Cyllid bod dyfodol Hyfforddiant Gwynedd yn destun trafodaeth ar hyn o bryd fel un o'r “syniadau i arbed” i'w cyflwyno i Fwrdd y Cyngor ar 30 Mehefin a'r pwyllgorau craffu dilynol.

Diolchwyd i'r holl swyddogion perthnasol am y gwaith ar y cyfrifon.

**PENDERFYNWYD**
**a) Derbyn a chymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon y Cyngor (yn amodol ar archwiliad) am 2008/09 ar gyfer eu cyhoeddi a'u harchwilio.**
**b) Bod Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio i lofnodi a dyddio'r datganiad.**

## 6. DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn cyflwyno Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2008/09 er cymeradwyaeth y pwyllgor.

Eglurodd bod Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol Cymru gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol blynyddol yn unol â rheoliad 4(2)(a). Nid oes gofyn statudol ar awdurdodau lleol Cymru i gyhoeddi datganiad llywodraethu blynyddol tu hwnt i'r gofyn am Ddatganiad Rheolaeth Fewnol. Fodd bynnag, mae'r Cynulliad yng nghanol proses ymgynghori ar hyn o bryd ar newidiadau i'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio.Ymysg y cwestiynau a ofynnir yn yr ymgynghoriad yw a ddylid gwneud y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn fandadol. Byddai hynny'n gwneud y gofyn ar awdurdodau lleol yng Nghymru yn gyson â'r ymofyniad cyfredol ar gynghorau yn Lloegr. Er mai yn wirfoddol y cyhoeddir y datganiad gan y Cyngor ar gyfer 2008/09, disgwylir y bydd y cyfryw ddatganiad yn fandadol erbyn y flwyddyn nesaf. Nododd mai ar ôl iddo dderbyn cymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio, caiff y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ei arwyddo gan y Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor. Cynhwyswyd y ddogfen o fewn Datganiad o Gyfrifon (tudalennau 7 – 17) a gyflwynwyd fel eitem ar wahân i'r pwyllgor.

Rhoddodd eglurhad manwl am yr hyn a ddisgwylir o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Pwysleisiodd ei bod yn hanfodol i dystiolaeth fod yn ei le er mwyn cefnogi'r cynnwys cyn cyhoeddi'r ddogfen. Adolygir y

dystiolaeth gan Swyddfa Archwilio Cymru yn eu hadolygiad o waith y Cyngor. Defnyddiwyd gwybodaeth o sawl ffynhonnell er mwyn paratoi'r datganiad gan gynnwys cyfansoddiad y Cyngor, adroddiadau archwilio mewnol, Cynllun Tair Blynedd y Cyngor a'r Strategaeth Gyllid.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, yn ymgorffori Datganiad Rheolaeth Fewnol Cyngor Gwynedd ar gyfer blwyddyn ariannol 2008/09 a'r cyfnod ers dyddiad y fantolen.**

## 7. CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL

**a) Adroddiad i'w ystyried ar gais y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd**
**Defnydd o Is-gontractwyr – Uned Darparu Priffyrdd**

Adroddwyd gan yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor wedi gwneud cais i swyddogion o'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol fod yn bresennol er mwyn gallu ateb unrhyw gwestiynau a allai godi o'r adroddiad archwiliad "Defnydd o Is-gontractwyr – Uned Darparu Priffyrdd".

'Roedd hyn yn dilyn ystyriaeth o'r adroddiadau archwiliad mewnol a ryddhawyd yn ystod y cyfnod rhwng 1 Mawrth a 31 Mai 2009. Ychwanegodd y swyddog mai bwriad yr archwiliad oedd sicrhau bod yr Uned Darparu Priffyrdd yn penodi is-gontractwyr yn unol â Rheolau Gweithdrefn Contractau y Cyngor ac ymarfer da.

Derbyniodd yr adroddiad gwreiddiol Gategori Barn C sef na ellid datgan sicrwydd o briodoldeb yn nhrefniadau'r Uned Darparu Priffyrdd wrth ddefnyddio is-gontractwyr. Hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg mai prif ddarganfyddiadau'r archwiliad oedd nad oedd trefniadau mewn lle gan yr Uned Darparu Priffyrdd i ddethol is-gontractwyr yn unol ag ymarfer da'r diwydiant adeiladwaith na Rheolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor. Gwelwyd hefyd bod yr uned yn ceisio am waith hyd yn oed os nad oedd ganddynt y capasiti i gwblhau'r gwaith gyda'r gweithlu mewnol ac yna rhoddi'r gwaith i is-gontractwyr. Nid yw hyn yn anarferol yn y diwydiant ac nid oedd gan Archwilio Mewnol wrthwynebiad i hyn gan bod cwmniau mawr sy'n ennill tendr yn aml yn is-gontractio'r gwaith i gwmniau lleol. Fodd bynnag, gwelwyd bod gwendidau arwyddocaol yn y trefniadau i osod y gwaith hwn i is-gontractwyr preifat.

Tynnodd y swyddog sylw at y ffaith bod cyn Beirianneg Sifil Gwynedd hyd at 2002 yn gyfundrefn gweithlu uniongyrchol lle 'roedd rhaid, yn unol â deddfwriaeth, gystadlu am waith a gwneud elw. Erbyn hyn 'roedd Peirianneg Sifil Gwynedd yn ran o'r Uned Darparu Priffyrdd, yn parhau i weithredu fel sefydliad masnachol ac yn cystadlu am waith am nifer o gontractau. Wrth adennill costau unrhyw waith mewnol gallent fod yn atebol i'r ochr gomisiynu o fewn yr Adran Priffyrdd. Mae'r uned yn cystadlu am gontractau gan y Gwasanaeth Ymgynghoriaeth.

Mewn ymateb i'r pwyntiau uchod, hysbysodd y Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol ei bod yn ofynnol i'r gwasanaeth hwn fod yn gystadleuol ac ymgymerir â gwaith o'r sectorau preifat a chyhoeddus. 'Roedd yn falch bod yr ymchwiliad wedi ei gynnal a chydnabu bod ychydig o wendidau yn y drefn. Cyfeiriodd at y ffaith y defnyddir trefn "Constructionline" yn rhannol, sy'n drefn i adnabod os oes gan gontractwyr neu is-gontractwyr a benodir yswiriant.

Cadarnhaodd bod y deuddeg argymhelliad y cyfeirir atynt yn yr ymchwiliad wedi eu gweithredu. 'Roedd saith argymhelliad yn deillio o'r ffaith a ddefnyddir 100% o'r drefn "Constructionline". Yn ychwanegol sicrheir gweithdrefn o drefn reolaidd "rotation" sef pan y cysylltir â is-gontractwr, y defnyddir "Constructionline" a bod y Cyngor hefyd yn mynd at fwy na thri is-gontractwr. Cadarnhaodd hefyd bod trefn yn ei le i fonitro bod yna drosiant yn y contractwyr a ofynnir i ymgymryd â'r gwaith. O ran sicrhau cydymffurfiaeth â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, 'roedd hyn eisoes yn ei le.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiadau a chefnogi'r argymhellion a gyflwynwyd i reolwyr yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol er gweithrediad.**

**b) Gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod hyd at 31 Mai 2009**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn amlinellu gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Mawrth a 31 Mai 2009. Wrth gyflwyno'r wybodaeth am y gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod cyfeiriodd y swyddog at -

- 18 o adroddiadau ffurfiol am archwiliadau o'r cynllun archwilio blynyddol gyda'r categori barn berthnasol yn cael ei ddangos.
- 9 archwiliad pryd y cynhyrchwyd memoranda, yn hytrach nag adroddiad llawn.
- 3 archwiliad dilyniant.
- 1 archwiliad ymatebol

Adroddwyd ar waith pellach sydd ar y gweill gan Archwilio Mewnol. 'Roedd hyn yn cynnwys 10 o adroddiadau drafft sydd wedi eu rhyddhau a 30 o archwiliadau sy'n mynd rhagddynt.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiadau yn unigol ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y materion canlynol –

**Rheolaeth Defnyddwyr a Chymwysiadau CITRIX**

Tynnodd un aelod sylw at y trafferthion 'roedd yn ei gael gyda meddalwedd CITRIX. Ymhelaethodd sawl aelod y byddai'n fuddiol iddynt gael mynediad "WiFi" i'r rhyngrwyd o fewn sefydliadau'r Cyngor drwy CITRIX.

Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod CITRIX yn feddalwedd a ddefnyddir i gael mynediad i ffeiliau'r Cyngor tu allan i Swyddfeydd y Cyngor. Cytunodd i drafod y trafferthion gyda Uned Dechnoleg Gwybodaeth y Cyngor.

**Gordaliad Lwfansau Teithio Aelodau**

Tynnodd aelod sylw at y ffaith i rai o aelodau'r Cyngor gael eu penodi ar Gyngor Iechyd Gogledd Gwynedd a gan bod cyllid y Cyngor Iechyd yn eithaf gwan i dalu costau teithio'n llawn, gofynnodd a fyddai'n bosibl i Gyngor Gwynedd fod yn gyfrifol am wneud y taliadau hyn.

Mewn ymateb, hysbysodd Cadeirydd Cyngor Iechyd Gogledd Gwynedd bod y Swyddog Monitro yn rhoddi ystyriaeth i'r mater.

Cytunwyd bod rhestr i’w hanfon at holl aelodau’r Cyngor yn nodi y cyrff, mudiadau allanol a.y. lle y mae hawl i aelodau hawlio costau teithio pan yn ymgymryd â’u dyletswyddau.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Mawrth i 31 Mai 2009 a chefnogi’r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**

## 8. CYLCH GORCHWYL ARCHWILIO MEWNOL

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn cyfeirio at y cylch gorchwyl a gyflwynwyd i’r Pwyllgor Archwilio ym Mehefin 2008 er mwyn adlewyrchu gofynion Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig 2006. Nodir yn y Côd Ymarfer y dylid adolygu’r Cylch Gorchwyl Archwilio Mewnol yn rheolaidd. Nodir hefyd y dylai’r sefydliad ddiffinio pwrpas, awdurdod a chyfrifoldeb Archwilio Mewnol yn ffurfiol mewn cylch gorchwyl sy’n gyson â’r côd hwn. Nodwyd nifer o ddyletswyddau a chyfrifoldebau a gyflwynir yn rhan o’r Côd Ymarfer a chyfeiriwyd atynt yn llawn yn yr adroddiad.

Yn dilyn adolygiad pellach o’r Cylch Gorchwyl, ‘roedd angen peth addasiadau iddo i adlewyrchu newidiadau yn strwythur y Cyngor a ddaeth i rym yn Ebrill 2009. Fe adlewyrchwyd y newidiadau strwythurol hyn hefyd yn y Rheolau Gweithdrefn Ariannol diwygiedig a fabwysiadwyd yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor ar 7 Mai 2009.

**PENDERFYNWYD derbyn a nodi cynnwys Cylch Gorchwyl Archwilio Mewnol a chefnogi’r Adain Archwilio Mewnol i gyflawni ei rôl.**

## 9. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2008/09

Cyflwynodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yr adroddiad blynyddol ar gyfer 2008/09. Eglurodd bod dyletswydd arno fel Pennaeth Archwilio Mewnol y Cyngor i ddarparu sicrwydd i’r awdurdod ar y system gyflawn o reolaeth fewnol yr awdurdod. Ychwanegodd nad oes modd iddo gadarnhau sicrwydd llwyr wrth leisio barn, ac mai’r mwyaf y gallai’r gwasanaeth archwilio mewnol ei ddarparu i’r Cyngor yw sicrwydd rhesymol nad oes gwendidau mawr yn y system gyfan o reolaeth fewnol. Wrth asesu’r lefel sicrwydd i’w roddi, ‘roedd wedi ystyried pob archwiliad sy’n berthnasol i 2008/09 ac unrhyw weithrediad dilynol parthed archwiliadau o’r cyfnod hwn a chyfnodau blaenorol. ‘Roedd y swyddog yn fodlon bod gan Gyngor Gwynedd **“fframwaith gadarn o reolaeth fewnol er mwyn cynnig sicrwydd rhesymol parthed cyflawniad effeithiol ac effeithlon o amcanion y Cyngor, gan fod y camau a gymerwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol i sefydlu a chryfhau rheolaethau mewnol ac i sicrhau bod argymhellion i gywiro gwendidau a adnabuwyd gan Archwilio Mewnol wedi bod yn foddhaol”.**

Er mwyn rhoddi barn ar ddigonolrwydd y systemau rheolaeth mewnol, hysbysodd y swyddog iddo ystyried y canlynol –
a) Yn gyffredinol, canfuwyd rheolaeth fewnol dda o fewn pob un o wasanaethau’r Cyngor yn unigol.
b) Lle canfuwyd gwendidau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol, cafodd y materion hyn eu cywiro gan swyddogion y Cyngor, neu derbyniasant sylw gan y Pwyllgor Archwilio.

c) Nid yw Archwilio Mewnol wedi dibynnu ar unrhyw waith gan gyrff archwilio allanol er mwyn dod i'r farn yn yr adroddiad blynyddol.

Mewn perthynas â'r gwaith a gynlluniwyd, hysbysodd bod 95% o'r gwaith a gynlluniwyd ar gyfer 2008/09 yn cyfrannu at y farn yn yr adroddiad blynyddol. Cyfeiriodd at y dadansoddiad o'r defnydd o adnoddau Archwilio Mewnol yn ystod 2008/09. 'Roedd y dyddiau cynhyrchiol a gyflenwyd er mwyn cwblhau archwiliadau yn y Cyngor yn y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2008 a 31 Mawrth 2009 yn 1,736 diwrnod o'i gymharu â 1,579 diwrnod am yr un cyfnod yn 2007/08. Yn ystod y flwyddyn gwelwyd peth trosiant staff a olygai bod swyddi wedi bod yn wag am gyfnodau. Fodd bynnag, cafwyd ailstrwythuro llwyddiannus yn ystod y flwyddyn gyda phenodiadau newydd o staff sy'n dangos gwir botensial.

Cyfeiriwyd ymhellach yn yr adroddiad at y modd y caiff adroddiadau archwiliad mewnol eu categoreiddio. O'r adroddiadau perthnasol i gynllun 2008/09, derbyniodd 80% farn "A" neu "B" sy'n welliant arwyddocaol ar y flwyddyn flaenorol, pan oedd y ffigur oddeutu 70%. Ni dderbyniodd unrhyw adroddiad farn "CH".

Derbyniodd oddeutu 95% o'r archwiliadau dilyniant a gynhwyswyd yn benodol yng nghynllun 2008/09 neu a ryddhawyd yn y cyfnod 1 Ebrill 2008 i 31 Mawrth 2009 farn "derbyniol" neu "ragorol". 'Roedd hyn yn awgrymu bod trefniadau cadarn o fewn yr awdurdod i weithredu argymhellion archwilio er mwyn cryfhau rheolaethau mewnol a rheoli risg.

Cyflwynwyd canlyniadau dangosyddion perfformiad 2008/09 a rhoddwyd eglurhad am y rhesymau tros fethu cyrraedd rhai targedau.

O ystyried cydymffurfiaeth â'r côd ymarfer, adroddodd Swyddfa Archwilio Cymru bod Archwilio Mewnol, ar y cyfan, wedi cydymffurfio â gofynion Côd Ymarfer CIPFA ar gyfer Archwilio Mewnol 2006. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn mesur Archwilio Mewnol yn erbyn y côd hwn. Adroddwyd y datblygodd Archwilio Mewnol gynllun gweithredu ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'r Côd Ymarfer mewn meysydd lle nad oes cydymffurfiaeth llwyr ar hyn o bryd.

Mewn perthynas â Rheolaeth Corfforaethol – Trefniadau Awdurdodi Swyddogion, gofynnodd aelod os yw o fewn y rheolau i swyddog arwyddo archeb i brynu eitem eithaf drudfawr os yw'r eitem honno ar gyfer ei ddibenion ei hun. Mewn ymateb, adroddodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg na ddylid cael sefyllfa lle mae yr un swyddog yn arwyddo archeb ac yn ardystio taliad. Nid oedd sefyllfa lle 'roedd swyddog yn ardystio archebion am nwyddau at ei ddibenion ef ei hun yn ddelfrydol, ond ei fod yn digwydd. Ymhelaethodd y Pennaeth Cyllid bydd cyflwyno trefniadau archebu electroneg tros y blynyddoedd nesaf, lle bydd angen i archeb gael ei "arwyddo" gan swyddog a'i gymeradwyo gan swyddog arall, yn reolaeth ychwanegol sydd i'w groesawu.

Parthed Unedau Iaith mewn ysgolion, tynnodd aelod sylw at y ffaith y teimlir y defnyddir cyllid ysgolion i sybsideiddio'r unedau iaith. Addawodd y swyddog roddi sylw i'r mater.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad fel adroddiad blynyddol ffurfiol yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn unol â gofynion y Côd Ymarfer ar gyfer Archwilio Mewnol mewn Llywodraeth Leol yn y Deyrnas Unedig.**

## 10. STRATEGAETH GWRTH-DWYLL A GWRTH-LYGREDIGAETH CYNGOR GWYNEDD A CHYNLLUN YMATEB I DWYLL A LLYGREDIGAETH

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg nad yw'r Cyngor, fel unrhyw gorff cyhoeddus arall sy'n ymdrin ag arian sylweddol, yn imiwn rhag bod yn destun ymgeisiadau i dwyllo neu ymgeisiadau i ddylanwadu ar swyddogion a/neu aelodau mewn modd lwgr. Gallai hyn gael ei weithredu, neu ei ymgeisio, gan unigolion o'r tu allan i'r Cyngor, gan staff, aelodau neu gyfuniad o'r rhain yn cyd-gynllwynio.

Hysbysodd bod y strategaeth a'r cynllun uchod yn eu lle ers sawl blwyddyn bellach, ac mae'n amser erbyn hyn i'w hadolygu i adlewyrchu newidiadau deddfwriaethol yn ogystal ag addasiadau ym mholisiau a gweithdrefnau eraill y Cyngor. Mae'r strategaeth yn rhan allweddol o fframwaith llywodraethu'r awdurdod ac mae ei fabwysiadu, ei hyrwyddo a'i weithredu yn gamau hanfodol i ennyn hyder y cyhoedd am ddiogelwch arian y trethdalwr. Mae'n adlewyrchu penderfyniad y Cyngor i warchod ei hun rhag twyll a llygredd a'r bwriad yw sicrhau safonau uchel o atebolrwydd cyhoeddus.
Eglurodd mai pwrpas y strategaeth yw darparu trosolwg o bolisi'r Cyngor o safbwynt ei agwedd at dwyll a llygredd a'r rhai sy'n gweithredu, neu'n ceisio gweithredu twyll neu lygredd yn erbyn y Cyngor a'r trethdalwr. Mae'r Cynllun Ymateb i Dwyll yn gosod allan yr hyn y dylai staff a/neu rheolwyr ei wneud pan maent yn amau bod twyll neu lygredigaeth yn digwydd a'r camau ymarferol y bydd y Cyngor yn eu dilyn er mwyn mynd i'r afael â'r mater. Mae'r cynllun hefyd yn amlinellu sut y bydd y Cyngor yn gweithredu a'r opsiynau sy'n rhaid eu hystyried, pan fydd tystiolaeth ddigonol i gefnogi'r honiadau o dwyll neu lygredigaeth wedi ei gasglu, gan gynnwys disgyblaeth fewnol a/neu erlyniad troseddol neu sifil neu gyfuniad o'r rhain.

**PENDERFYNWYD**
**a) Cymeradwyo'r Strategaeth Gwrth-dwyll a Gwrth-lygredigaeth a'r Cynllun Ymateb i Dwyll a Llygredigaeth a'u mabwysiadu'n ffurfiol.**
**b) Datgan cefnogaeth i'r dogfennau a chefnogi aelodau a swyddogion y Cyngor wrth eu gweithredu.**

## 11. ADOLYGIAD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU O WASANAETH ARCHWILIO MEWNOL CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd adroddiad yr Archwiliwr Allanol bod y Côd Ymarfer Archwilio ac Arolygu a gyhoeddwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Safon Archwilio Rhyngwladol yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ystyried os yw trefniadau rheolaeth ariannol fewnol y Cyngor yn ddigonol. Gan bod archwilio mewnol yn elfen allweddol o'r system rheolaeth fewnol, cwblheir asesiad blynyddol o'i berfformiad.

Yn dilyn cwblhau'r asesiad, 'roedd yr Archwiliwr Allanol o'r farn bod gan y Cyngor wasanaeth archwilio mewnol effeithiol. Mae'n cydymffurfio ar y cyfan â safonau Côd Ymarfer Archwilio Mewnol CIPFA. Fodd bynnag, mae gan Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol rai cyfrifoldebau gweithredol sydd yn dechnegol anghyson gyda'r safon annibyniaeth. Nodwyd, wedi trafodaeth gyda'r Pennaeth Cyllid, bod yr Archwiliwr Allanol yn deall nad yw'r Cyngor am

newid y strwythur. Yn ogystal, nodwyd yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru bod rhai gwendidau mewn perthynas â'r safonau o ran cyflawni gwaith archwilio, cyflwyno adroddiadau a perfformiad, ansawdd ac effeithiolrwydd. Er mwyn ceisio gwella perfformiad y gwasanaeth, argymhellodd yr Archwiliwr Allanol o Swyddfa Archwilio Cymru y canlynol –
a) Sicrhau bod yr ymarfer a gyflwynwyd yn ddiweddar o gytuno a dosbarthu briff ysgrifenedig i reolwyr yn cael ei weithredu.
b) Sicrhau bod yr archwiliadau'n cael eu cwblhau mewn da bryd.
c) Gwella ar adrodd y wybodaeth perfformiad er mwyn sicrhau ei fod yn glir ac yn adlewyrchu gwir lefelau gweithgaredd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**Mater Cyffredinol – Amser Dechrau'r Cyfarfod a Lleoliad**

Gofynnodd aelod a fyddai'n bosibl newid amser dechrau'r cyfarfod i 10.00am a bod ystyriaeth i'w roddi hefyd i amrywio lleoliad y cyfarfod gan gynnwys ystyried Canolfan Gyswllt Penrhyndeudraeth.

**PENDERFYNWYD ymddiried y mater i'r swyddogion perthnasol.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 1.15pm